// Y Dinesydd

Mawrth Rhif 365 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog

# Agor y Sherman Cymru Newydd



*Y Sherman ar ei newydd wedd*

Wel, dyma ni, yr adeilad ddiweddaraf i fod yn gartref i'r celfyddydau yng Nghaerdydd. Ar ôl dwy flynedd o waith adeiladu, mae'r theatr ar ei newydd wedd yn barod i roi croeso 'nôl i ffyddloniaid y ddrama yn y brifddinas. Diolch i Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru, nifer fawr o Ymddiriedolaethau, ynghyd â llu o unigolion hael a gyfrannodd tuag at y prosiect gwerth £6.5 miliwn.

Os ewch chi ar hyd Heol Senghennydd yn awr fedrwch chi ddim methu gweld yr adeilad newydd sbon hwn yn sgleinio ym mysg adeiladau'r coleg sydd, erbyn hyn, yn dyddio yn ôl i saithdegau'r ganrif ddiwethaf. O'r diwedd mae gennym theatr fodern sy'n ateb gofynion yr unfed ganrif ar hugain, gyda chyntedd eang, bwyty, seddau newydd cyfforddus, awyru pwrpasol, ac offer technegol, ystafelloedd ymarfer a chyfleusterau addas i actorion cystal, os nad gwell, nag unrhyw le arall yn y brifddinas.

Daeth cannoedd o ffyddloniaid i'r diwrnod agored fis diwethaf, gan ymateb yn ffafriol iawn i'r hyn a welson nhw, ac fe lansiwyd y tymor newydd gyda'r ddrama Gymraeg newydd, Sgint, sef portread o dref Caernarfon trwy eiriau'r trigolion. Wedyn, fe fu'r lle yn llawn i'r ymylon i weld Sian Phillips yn serenu yn y ddrama Lovesong - noson gofiadwy i bawb fu'n ddigon ffodus i gael tocyn. Erbyn i chi ddarllen y llith hwn fe fydd Cerys Matthews wedi llenwi'r lle am noson gyfan gyda'i rhaglen o ganu gwerin, blues a phop. Bu'n ddechrau cyffrous dros ben i oes newydd y theatr - ac y mae rhagor i ddod!

Ffurfiwyd Cwmni Sherman Cymru bum mlynedd yn ôl fel cyfuniad o'r hen Sherman Theatre Company a Sgript Cymru, gan gyfuno'r theatr ei hun gyda chwmni oedd yn datblygu ysgrifennu newydd yn y ddwy iaith. Eisoes fe gafwyd cryn lwyddiant gyda dramau newydd yn chwarae dros Brydain. gan ennill gwobrau yng Ngŵyl Caeredin. Yn awr fod gennym gartre' addas i'r pwrpas, ein nod yw gwella'r ddarpariaeth eto fyth gan ddangos y gorau o waith dramodwyr newydd Cymru, a hefyd groesawu i Gaerdydd gwmnïau blaenllaw Prydain a thu hwnt. Gallwn bellach ymfalchïo yn yr adnoddau sydd yma at eu cyfer.

Croeso mawr, felly, i Gymry Cymraeg Caerdydd i'r Sherman Cymru newydd. Fe welwch yno adeilad sy'n bleser ymweld ag e'; addurn i'n prifddinas.

Dewch i brofi pob cynhyrchiad, wrth gwrs, ond os caf wneud un apêl arbennig, dewch i gefnogi'r sioeau Cymraeg fydd yn cael eu llwyfannu yno. Trwy eich presenoldeb gallwch helpu ni i wireddu ein bwriad i roi profiad theatrig cofiadwy i bob carfan o'n cymdeithas yng Nghaerdydd.

**Emyr Jenkins,**
*Cadeirydd Sherman Cymru*

# Yn angladd Emyr Daniel

## 24 Chwefror, 2012



Colled fawr, fel y gwyddon ni ac y teimlwn ni i gyd, ydy colli Emyr. Dyn ifanc, yn marw'n llawer rhy ifanc, ond nid pan oedd yn chwedeg tair y collon ni Emyr ar lawer i wedd. Na, oherwydd afiechyd ac amryfusedd fe gollon ni beth wmbredd o'r hyn oedd gan Emyr i'w gynnig flynyddoedd yn ôl.

Mi fûm i mewn sawl achlysur pan oeddwn i'n cael bod yng nghwmni'r teulu estynedig. Fues i efo fo mewn nifer o ddigwyddiadau teuluol, mewn capel a chartref a gwesty. Roedd gan Emyr dair chwaer yn ogystal â brawd, a phawb yn agos at ei gilydd. Pawb yn tueddu i ddifetha Emyr, er nad y fo oedd y cyw melyn olaf!

Dwi'n cofio parti ar ôl bedydd Mathew, yn yr ardd ar ddiwrnod braf o haf. Ar achlysuron fel'na yr oeddwn i'n sylweddoli i Emyr etifeddu llawer o'i ddireidi a'i swyn oddi wrth ei fam, a pheth o'i arabedd oddi wrth ei dad. Yr oedd gan Emyr wên arbennig a chwerthiniad bach tawel oedd yn tincial yn ei gorn gwddf.

Mi fuon ni'n dau efo'n gilydd yn gweithio dramor hefyd, yn Iwerddon ac yn yr Eidal. Roedd Emyr yn cyfweld mawrion yr Ynys Werdd am dros hanner awr yr un. Anghofia' i fyth sut yr oedd o'n medru dysgu'r ffeithiau pwysig am y Gwyddelod amlwg hyn, a'u defnyddio mor naturiol wrth eu holi. Holi a stilio, ond hefyd swyno'r gwrthrychau i fod yn gysurus yn trafod manion a manylion eu bywyd personol yn ogystal â chyhoeddus. Trafod cardinal a phrif weinidog, awduron enwog a phobl amlwg eraill.

Dwi'n cofio'n arbennig am y cyfweliad efo Garret Fitzgerald, y Taoiseach, Prif Weinidog Iwerddon ar y pryd. Garret newydd fod yn is-lywydd Comisiwn y Gymuned Ewropeaidd, yn dweud wrthyf i wedyn cymaint roedd o wedi mwynhau'r cyfweliad. 'Dyna'r tro cyntaf,' meddai, 'i bobl fy holi i fel'na am fy nghefndir personol.' Ac roedd ganddo gymaint i'w ddweud, am ei fam wedi bod yn Ysgrifenyddes i Bernard Shaw, a'r blynyddoedd y buon nhw'n byw ym Mharis. Cardinal O'Fiach wedyn, yn dŵad aton ni'n dau y noson cyn y cyfweliad i drafod pethau, ac yn tynnu ei gôt a'i stoc du ffurfiol, offeiriadol, gan ddatgelu crys siec torrwr coed Canadaidd - er mawr syndod i fab y Mans!

Roedd o'r un fath yng Nghymru hefyd, yn medru darllen a chofio manylion sefyllfa hyd yn oed pan oedd rhaglen eisoes ar yr awyr, a'u cyflwyno'n goeth a chryno. Byddai'n trefnu croeso arbennig i ambell un oedd yn dŵad o bell, wrth eistedd a thrafod y cyfweliad ymlaen llaw, mewn sgwrs anffurfiol, hwylus. Dwi'n cofio fo'n trefnu croeso i Edna O'Brien yn HTV Cymru, a hi'n un o westai'r gyfres ar y Gwyddelod. Sylwais ei fod wedi trefnu gosod rhosynnau pinc yn yr Ystafell Werdd lle'r oedden ni am gael trafod y rhaglen. Edna yn ymlacio'n braf, ac yn canmol, wedyn, y ffaith fod y blodau pinc yno, yn ei hatgoffa fel roedd rhyw gymeriad yn un o'i llyfrau wedi defnyddio blodau o'r fath i swyno rhyw ferch. Emyr yn gwybod yn iawn beth oedd o'n wneud!

Ond roedd yna arwyr yr edrychai fyny atyn nhw'n arbennig: Aled Vaughan a'i penododd o i'w swydd gyntaf


## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Gwilym ac Eirian Dafydd

Golygydd y rhifyn nesaf:
Alun a Mair Treharne

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Ebrill erbyn 27 Mawrth i:
91 Windermere Avenue,
Parc y Rhath,
Caerdydd CF23 5PS
Ffôn: 029 20 754 436
mairgtreharne@hotmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd


## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**,
54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**,
12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**,
6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**,
55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**,
9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**,
12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**,
38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

yn syth o'r coleg, a'i fentor a'i gyfaill mawr, Gwyn Erfyl. Ond er agosed oedd o at Gwyn, roedd bob amser yn ei gyfarch fel 'chi'!

Roedd Emyr, fel y gwyddon ni, yn medru bod yn gymeriad llawchaidd, annwyl, swynol, ond uwchben popeth roedd yn newyddiadurwr a chyflwynydd a holwr wrth reddf, a thrueni yng ngolwg llawer ohonon ni oedd iddo gael ei ddyrchafu i swyddi gweinyddol uchel.

Roedd yn ddyn o argyhoeddiadau pendant hefyd, ond yn ei waith bob amser yn gytbwys a gwybodus, ac yn medru cydweithio yn hapus mewn tîm. Roedd yn medru ymdopi â phob math o argyfwng, gan gyflwyno'r newyddion neu gynnal y cyfweliad yn hamddenol braf.

Annibynnwr oedd Emyr wrth gwrs, ond mi fedra' ei gofio fo mewn sefyllfaoedd go estron iddo fo. Roedden ni yn y Fatican unwaith yn gweithio ar gyfres ar hanes y Babaeth ac yn mwynhau gogoniannau Rhufain, yn ogystal â chyflwyno Mab y Mans i ryfedd ffyrdd a ffurfiau'r Eglwys Babyddol!

Ond er ehangder ei wybodaeth a'i brofiadau, roedd yn dal i ymdeimlo â'i wreiddiau ym Mhenfro, ym Maenclochog lle y ganwyd o, ac yn yr holl ardal. Dwi'n cofio un arall o arwyr Emyr, ei dad-yng-nghyfraith, Gerallt, yn disgrifio swyn a chyfaredd Penfro, ac yn dirwyn hynny trwy waith dau artist mawr, sef Waldo a Graham Sutherland. Roedd Emyr yn ymfalchïo yn y dreftadaeth yna.

Heddwch i'w lwch bellach, a diolch am ei gyfraniad ac am gael bod wedi ei adnabod.

***Harri Pritchard Jones***

# Actores o'r Amerig mewn ffilm Gymreig

Yn ddiweddar rhyddhawyd y ffilm 'Hunky Dory' gyda'r actores enwog o'r Amerig Minnie Driver yn ymddangos yn y prif ran. Cyfarwyddwyd y ffilm gan Marc Evans gynt o Riwbeina a oedd hefyd yn Gyfarwyddwr y ffilm 'Patagonia' a welwyd yn sinemau'r wlad y llynedd. Lleolir y ffilm yn Abertawe ac roedd hyn wrth fodd Minnie Driver gan fod ei thad yn enedigol o'r ddinas honno.


# Llety gwyliau ar osod yn Edern Pen Llŷn

Golygfeydd godidog, teithiau cerdded gwych, o fewn munudau i lan y môr. O fewn tafliad carreg i fae enwog Porthdinllaen a'i glwb golffio erbyn hyn. Digonedd i wneud, o ferlota, beicio, pysgota, hwylio, cerdded, bywyd gwyllt, henebion, i hamddena a llawer llawer mwy.

**Am fanylion pellach cysylltwch â Gwenan Hughes ar 01758 770363 neu e bostiwch taghughes@yahoo.co.uk**


# *Llongyfarchiadau*

Richard Kay Penylan ar ei ddyweddiad ag Elen Davies Meidrim, Sir Gaerfyrddin.

~~~~~

Mari Emlyn o'r Felinheli ond gynt o Gaerdydd ar ei phenodiad fel Cyfarwyddwraig Artistig Canolfan Galeri yng Nghaernarfon.

~~~~~

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y cyflwynir rhyddfraint Dinas Caerdydd i'r gantores enwog Shirley Bassey, gynt o ardal Trebute, fel cydnabyddiaeth o'i gyrfa hynod o lwyddiannus a'r ffaith ei bod wedi cadw ei chysylltiadau â dinas ei genedigaeth er ei bod yn byw yn Monte Carlo bellach. Mae hi wedi dychwelyd i Gaerdydd o dro i dro ar hyd y blynyddoedd ac mae hi'n noddwraig i Apêl Arch Noa sy'n cefnogi'r ymdrechion i sicrhau gorffen cynllun Ysbyty Plant Cymru ar safle Ysbyty'r Brifysgol. Llongyfarchiadau iddi a hi fydd y 61 person i dderbyn rhyddfraint y ddinas ers 1886. Derbyniodd Nelson Mandela yr anrhydedd nôl yn 1998. Cynhelir seremoni arbennig iddi rywbryd yn ystod y misoedd nesa.

# *Llythyr at y Golygydd*

### Cyfle Gwych i Hyrwyddo eich Busnes

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar Ddyddiaduron 2013 Y Lolfa. Mae'r Dyddiaduron yn cynnwys Cyfeiriadur defnyddiol o fusnesau a sefydliadau Cymreig. Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am gwmni neu gymdeithas newydd yn ein Cyfeiriadur neu os ydych am ddiweddaru neu ddileu gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi neu fynd i'r adran Cyfeiriadur Cymreig ar wefan Y Lolfa: http://www.ylolfa.com/cyfeiriadur

Bydd, fel arfer, yna gyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced Y Lolfa. Os am dderbyn taflen delerau mae croeso i chi e-bostio sonia@ylolfa.com neu fy ffonio ar 01970 832304.

Yn gywir
**Sonia Hughes**
sonia@ylolfa.com
Y Lolfa, Talybont, Ceredigion, SY24 5HE

# Cefnogi eich Papur Bro

***Beth am gael pob rhifyn o'r Dinesydd yn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau gyda rhifyn mis Ebrill?***

Dim ond £8 fyddai e (£15 drwy'r post). Gweler y daflen tanysgrifio yn y rhifyn hwn - a beth am roi'r daflen arall i ffrind? Byddai eich cefnogaeth yn werthfawr iawn.

I'r rhai ohonoch sy'n tanysgrifio trwy archeb banc byddai'r Dosbarthwr, Huw Jones, yn falch o gael gwybod ym mha fis mae'r taliad yn gadael eich cyfrif banc. (Manylion cysylltu ar dud.2 neu huwgybuw@aol.com)

~~~~~~~~~~

***Mae'n bosib y bydd rhifyn Ebrill ychydig yn hwyr yn ymddangos oherwydd trefniadau gwyliau.***
~~~~~~~~~~

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**
**029 20689 888**

## Cynllun Gofal y Pasg, Ebrill 2012

Bydd 2 Gynllun Gofal yn digwydd yn ystod gwyliau'r Pasg yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd. Bydd y ddau gynllun ar agor yn ystod y gwyliau, heblaw Dydd Gwener y Groglith a Dydd Llun y Pasg rhwng 8.30am a 5.30pm. Yn ogystal â'r cyfleoedd chwarae arferol, bydd gweithdai cerdd, chwaraeon, cymorth cyntaf, eisteddfod ddwl a thaith i Dan yr Ogof. Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch marirhys@mentercaerdydd.org. Rhaid cofrestru o flaen llaw - mae modd gwneud hynny ar ein gwefan.

## Gweithgareddau'r Pasg

Bydd y Fenter yn trefnu amserlen lawn o weithgareddau a sesiynau i blant meithrin, plant cynradd a phobl ifanc yn ystod y gwyliau – am fwy o wybodaeth, ewch i wefan y Fenter.

## Gwasanaeth newydd i bobl ifanc yn ystod y gwyliau

Fe fydd y Fenter yn treialu gwasanaeth newydd i bobl ifanc yng ngwyliau'r Pasg rhwng Ebrill y 10fed a'r 12fed ac eto rhwng Ebrill 17 ac 19. Bydd croeso i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 ymuno â ni yn Ysgol Glantaf rhwng 10am a 2pm i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai a gemau, cyfle i gael paned a chymdeithasu. Fe fydd y gwasanaeth yma'n rhad ac am ddim, ond bydd angen i'r bobl ifanc gofrestru diddordeb o flaen llaw ac arwyddo mewn ag allan ar y diwrnod. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan y Fenter a chliciwch ar y dudalen Ieuenctid neu ebostiwch angharad@mentercaerdydd.org

## Holiadur ar-lein mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Fforwm Iaith Caerdydd

Mae nifer o staff y Fenter wedi bod yn cynorthwyo gyda chasglu ymatebion rhieni i holidaur diweddar gan Gyngor Caerdydd a Fforwm Iaith Caerdydd. Pwrpas yr holiadur oedd i Gyngor Caerdydd a phartneriaid Cymraeg y ddinas ddarganfod faint o ddefnydd a wneir o'r ddarapariaeth gymdeithasol bresennol yn ogystal a'r galw am wasanaeth o'r fath. Derbyniwyd dros 1,000 o ymatebion, felly diolch yn fawr i'r holl rhieni sydd wedi ymateb a chymryd rhan yn y broses ymgynghori. Rydym yn edrych ymlaen nawr i weld y canlyniadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Cwrs Coginio Undydd gyda Padrig Jones

Cwrs penodol fydd yn edrych ar baratoi prydau a byrbrydau o'r Dwyrain Canol gan gynnwys Cig Oen Moroco, Dips, Mezze a llawer mwy... Cynhelir y sesiwn rhwng 11am a 4pm, Ddydd Sadwrn, Mawrth 31 yn Ysgol Gyfun Plasmawr, a byddwn yn rhoi gwybod i bawb o flaen llaw pa gynhwysion fydd angen. £25 fydd cost y sesiwn, ac mae angen cofrestru o flaen llaw. Am ragor o fanylion ac i gofrestru, ewch i mentercardydd.org neu ebostiwch aweldavies@mentercaerdydd.org

## Cwis y Mochyn Du

Bydd cwis yn cael ei gynnal Nos Sul, Mawrth 25 yn y Mochyn Du am 8pm. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch bod y cwis ar Nos Sul olaf bob mis!

## Penwythnos Teulu i Langrannog

Mae ambell i le ar ôl ar y penwythnos poblogaidd hwn ar gyfer teuluoedd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog – Dydd Gwener, Mawrth 30 – Dydd Sul, Ebrill 1, 2012. Penwythnos llawn hwyl a sbri, gyda llu o weithgareddau yn cynnwys nofio, merlota, cwrs rhaffau, gwibgartio, sgîo, trip i'r traeth, twmpath, cwis a llawer mwy. Am fanylion llawn neu i gofrestru ewch i wefan y Fenter – neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org

## Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012

Mae Menter Caerdydd yn ystyried trefnu gwasanaeth bysiau rheolaidd i redeg o Gaerdydd i Faes yr Eisteddfod yn Llandw fis Awst eleni. Y gobaith yw bydd y bysiau'n rhedeg o ddechrau'r bore tan yn hwyr yn y nos, gyda'r bws olaf yn gadael y Maes ar ôl diwedd y cyngerdd yn y Pafiliwn. Bydd tâl bychan yn cael ei godi am y gwasanaeth.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod galw am wasanaeth bysiau o Gaerdydd i'r Maes cyn mynd at i drefnu'r amserlen, ac felly'n gofyn i unrhyw un fyddai'n awyddus i ddefnyddio'r bysys yn ystod wythnos yr Eisteddfod i gysylltu â ni er mwyn i ni weld pa mor boblogaidd fyddai gwasanaeth o'r fath.

Nid yw'ch ymateb yn eich ymrwymo i unrhyw beth, ond yn hytrach yn ein helpu i asesu'r galw.

Gallwch naill ai ymateb trwy ffonio ni'n y swyddfa, 029 20 689888, cysylltu drwy Twitter neu Facebook y Fenter, neu drwy anfon ebost at menter@caerdydd.org

## Gŵyl Tafwyl
## 23 - 29 Mehefin, 2012

### Dydd Sadwrn, Mehefin 23
Ffair Tafwyl – Castell Caerdydd

### Mehefin 23 - Mehefin 29
Gweithgareddau amrywiol ar draws y ddinas

***Bydd gwefan Tafwyl yn barod yn fuan –***

**www.tafwyl.org**

***ac mae modd dilyn y newyddion diweddaraf ar Facebook a Twitter***

# Colofn G.R.

Wele daeth yr amser i mi roi pin wrth bapur unwaith eto i sgrifennu hyn o golofn. Bydd hi'n fis Mawrth erbyn i'r rhifyn hwn o'r Dinesydd ymddangos a bydd llawer ohonom ni wedi mynychu cyfarfodydd i ddathlu Gŵyl Ddewi neu wedi gorymdeithio drwy strydoedd Caerdydd i ddathlu'r achlysur. Mae lle i ni lawenhau yn nhwf Cymreictod yn ein prifddinas ond sylweddolir bod llawer o waith i'w wneud eto i ehangu'r defnydd o'r iaith yn ein plith.

Diflas braidd oedd darllen llythyr dienw yn rhifyn Chwefror o'r papur hwn yn rhestru gwendidau cyflwyno addysg Gymraeg i liaws o blant y ddinas. Ond heb mewnbwn y plant o gartrefi di-Gymraeg ni fyddai ysgol cyfrwng Cymraeg yn bodoli yn y ddinas. Oes mae problemau ac oes mae'r Gymraeg a siaredir gan yr ifanc yn wahanol i iaith y bobl hŷn ond mae pob iaith yn gorfod newid fel gwnaeth y Saesneg dros y canrifoedd a felly rhaid ymfalchïo fod y Gymraeg yn dal i ehangu ac mae gobaith lle bu anobaith am barhad yr iaith flynyddoedd yn ôl.

Ces i a'm brawd ein magu yn y ddinas pan nad oedd addysg Gymraeg ar gael ond ymfalchiaf yn y ffaith fod tair cenhedlaeth o'm teulu yn dal yn siaradwyr yr iaith, diolch i dwf addysg Gymraeg yn y ddinas. Daw'r ymadrodd o'r Beibl "y neb sy ddim hefo ni sy yn ein herbyn ni" i feddwl wrth ddarllen llythyr mor negyddol y person dienw yn rhifyn mis Chwefror.

Ym mis Chwefror rhoddwyd llawer o sylw i'r ffaith fod Cymdeithas yr Iaith yn hanner cant oed a rhoddwyd sylw i ddarlith radio Saunders Lewis "Tynged yr Iaith" a bu nifer o raglenni ar Radio Cymru yn pwyso a mesur yr hyn sy wedi digwydd dros yr hanner can mlynedd diwethaf o safbwynt yr iaith. Mae pobl wedi poeni a darogan tranc yr iaith dros y canrifoedd ond dan ni yma o hyd a phe bawn ni wedi digalonni a rhoi'r ffidil yn y to i frwydro dros yr iaith lle byddwn ni heddiw? Diolch i bobl am weledigaeth a dyfalbarhad i sicrhau na fydd cenedl y Cymry heb eu hiaith. Pwy ddywedodd "Cenedl heb iaith cenedl heb galon"?

Eleni hefyd mae'r Urdd yn dathlu 90 mlynedd o fodolaeth a phwy na warafun am lwyddiant y Mudiad hwn i danio plant a phobl ifanc Cymru i lynu wrth eu hiaith a'u diwylliant. Gweledigaeth un dyn, sef Syr Ifan ab Owen Edwards oedd Mudiad yr Urdd a diolch am bobl debyg sy wedi cario fflam yr iaith dros y canrifoedd. Pob llwydd yn y dyfodol i Gymdeithas yr Iaith a Mudiad yr Urdd a phob llwydd yn y dyfodol i bawb sy'n gweithio'n ddyfal i sicrhau parhad i'n hiaith a'n diwylliant.

# Merched y Wawr Radur

Mae'n draddodiad gan y gangen gynnal noson arbennig i ddathlu Dydd Santes Dwynwen ac eleni, fel arfer daeth tua thrigain ynghyd yng Nghlwb Golff Radur. Llywyddwyd gan John Evans ac ef a groesawodd Caryl Williams o Ynysybwl.

Aeth John â ni yn ôl i'r chwedegau gyda'i ddetholiad o'i hoff ganeuon. Roedd Caryl yn aelod o'r grŵp poblogaidd Triban (1968-1978). Flwyddyn ddiwethaf cyhoeddodd Sain yr hen ffefrynnau ar CD o'r enw 'Triban - y Casgliad'. Diolchwyd iddi am noson hwyliog, llawn atgofion gan Val Scott, Llywydd Cangen Radur.




# DAU EFAILL YN SERENNU YN Y GYFRES TEULU

Mae dau efaill bach o Benarth, Elis a Steffan Redwood, yn serennu yn y gyfres ddrama boblogaidd ar S4C, Teulu.

Mae'r ddau fachgen bach 10 mis oed yn chwarae rhan Prys Lloyd yn y gyfres ac wedi dwlu cael cwtsh ym mreichiau eu rheini ar-y-sgrîn a gyrglo yn y pram!

Yn y gyfres nos Sul (9.00pm), mae Prys yn fab i'r rhieni balch Rhydian Lloyd â'i bartner Llinos Morgan, ac yn rhan o'r teulu dylanwadol yn y gyfres, y Morganiaid.

Yn y byd go iawn, y nhw yw plant Sara ac Alex Redwood o Benarth ac yn frawd i grwt dwyflwydd a hanner oed, Ioan.

Meddai eu mam, Sara, 34 oed: "Fe gafon ni alwad gwanwyn diwethaf gan yr actor Meilyr Sion, sydd yn ffrind inni. Fe ofynnodd inni a oedd gennym ddiddordeb mewn cynnig y plant ar gyfer ffilmio ar set y gyfres Teulu yn Aberaeron a Chaerdydd yn ystod yr haf."

"Doedden ni ddim yn siŵr a fyddai'n ddoeth ar y dechrau, ond roedd y bechgyn yn blant mor ddedwydd fel yr oedd y profiad cyfan yn eithaf rhwydd ar y cyfan. Roedd y cast â'r criw yn wych ac fe lwyddon ni i gyfuno'r ffilmio gydag ychydig o wyliau yn Aberaeron."

Dywed Sara, a oedd yn weithiwr ieuenctid cyn cael y plant, nad yw'r ddau efaill yn edrych yn union yr un peth, ond bod ffilmio clyfar wedi goroesi'r broblem honno.

Ychwanega Sara: "Rwy'n dilyn y gyfres yn selog, ond wrth wylio'r gyfres hon, rydyn ni i gyd yn dueddol o ganolbwyntio ar geisio cael cipolwg ar y ddau efaill. Mae hyd yn oed eu brawd mawr Ioan yn ymuno yn yr hwyl o geisio cael cip bach ar ei frodyr!"

Meddai'r actor Meilyr Siôn: "Dw i a fy ngwraig yn nabod Alex a Sara Redwood ers rhai blynyddoedd, felly fe wnes i ofyn a oedd ganddyn nhw ddiddordeb mewn cynnig y plant ar gyfer y gyfres. Roedden nhw'n ddewis da achos bod nhw mor ddedwydd a roedd y cast a'r criw wedi dwlu arnyn nhw!"

Teulu, Nos Sul, 9.00pm
Ar alw: s4c.co.uk/clic
Cynhyrchiad Boomerang ar gyfer S4C

# Ôl-Lwybrau

## Eiry Palfrey

### TEITHIO – MAS DRAW

Beth i'w wneud ar ôl ymddeol dyna'r cwestiwn. Roedd fy mryd ar brynu bwthyn bach bijou yn Ffrainc, ac yn wir buom bron a gwneud. Yn y cyfamser roedd Maurice y gŵr yn coleddu'r syniad o grwydro Ewrop mewn cartref modur. Doeddwn i ddim mor frwdfrydig rhaid cyfaddef. Mae Scorpio'n hoffi ei nyth ac yn gwrthwynebu newid. Ond wedi hir berswâd dechreuais ymchwilio (fel sy raid i Scorpio) i'r posibilrwydd. Edrychwyd ar foduron cyfeillion, trafodwyd yn hir a manwl. Darllenwyd yn faith a defnyddiwyd Google hyd syrffed. A'r canlyniad fu i ni fuddsoddi ffortiwn fach (bron cymaint â'r bwthyn yn Ffrainc!) ar y Tribute 620 newydd sbon yn Hydref 2010.

Ar y Cap Finistere ym mis Tachwedd ar y ffordd i Sbaen a'r pryder yn dal i gnoi, clustfeiniais ar gysurwr Job yn sôn am ladron yn Sbaen oedd yn ymosod ar bobl barchus yn eu cartrefi mudol moethus ac yn dwyn pob celficyn oedd yn annwyl iddynt – hyd yn oed eu cerbyd a'u gadael yn amddifad ar ochr y ffordd heb ddim. O'r annwyl! Mae 'na anfanteision i gartre mudol wrth gwrs. Mae e'n fawr a chlogyrnaidd. Rhaid ysytried, parcio, pontydd isel, lonydd cul a myrdd o rwystrau eraill cyn mentro. Ond mae hynny yn rhan o'r antur. Rydych chi'n mynd â'ch cartref bach twt gyda chi. Pob peth wrth law – nwy i goginio a chynhesu, trydan i oleuo. Dŵr poeth, gwresogydd, rhewgell a gwelyau, tŷ bach a chawod!

Gadawsom y fferi ac anelu am Logrono – prif dref ardal Rioja (cyfareddol!). Roedd llawer o'r meysydd gwersylla wedi cau dros y gaeaf. Ond yn ôl llyfr y *Caravan Club* roedd un ar gyrion Logrono ar agor. Ac yn wir (diolch i Cadi ein sat nav hollwybodol) yr oedd ar agor ond yn hynod dawel. Roedd rhaid aros tan y bore i weld pa mor dawel. Rhesi ar resi o garafaniau a phebyll llychlyd trist, gwag a ninnau a ryw ddau gwpwl Prydeinig oedd yr unig rai yno. Prynu potel o Rioja am 3 ewro a gwneud cig mochyn ac ŵy. Hyfryd! Trannoeth yn Logrono cael tapas a gwydriad neu ddau o Rioja mewn bodega bach hyfryd. Cerdded ar lan yr afon Ebro cyn gyrru i gyfeiriad Môr y Canoldir a pharcio yn Lleida yng ngwlad y Catalaniaid - bobl wareiddiedig fel y Ffrancod a'r Sbaenwyr sy'n parchu'r awr ginio a'r siesta. Does dim raid talu am barcio rhwng 2 a 4; a chewch chi mo'ch bwcio am barcio ar y stryd rhwng yr oriau hynny chwaith! Mae'r Catalaniaid yn ymfalchïo yn eu cenedl a'u hiaith – Catalaneg. Dod o hyd i dŷ bwyta Catalaneg – a phrofi o'u bwyd traddodiadol. Y disgrifiad Saesneg oedd 'broken eggs on potatoes with cheese'. Omlet datws a chaws tybed? Ond na, roedd y tatws wedi eu coginio mewn olew a'r ŵy amrwd wedi torri ar eu pen a dechrau coginio yng ngwres y tatws poeth. Cymysgu'r cyfan yn eofn yn un pwdin. Hyfryd o flasus, ond gormod o lawer. 'Bastida' – digon (wedi edrych yn y geiriadur) meddwn wrth y gweinydd. 'No, no bastida' medd yntau a dod â dau blât arall o'r wyau toredig i'r bwrdd. Ffiw!

Clywsom fod gwersyllfan braf yn Cambrils de Mar ar yr arfordir, ychydig islaw Tarragona. Roedd hi'n dywyll erbyn i ni gyrraedd. Ond yn y bore wele'r haul yn tywynnu mewn awyr digwmwl a mentro allan i'r traeth a'r dref a chael ein swyno. Roedd cwpwl o Gaerleon wedi bod yno ers mis ac yn bwriadu aros am fis arall! Ond symud bob yn eilddydd neu dridiau sy'n ein siwtio ni. Mae yna gymaint i'w weld! Erbyn hyn mae'r fan fach wedi bod trwy Ffrainc a Sbaen heb sôn am Gymru a Lloegr – a ninnau'n dal i fwynhau – mas draw. Ble nesa tybed? Mae'r byd wrth ein traed.

## *Cydymdeimlir â*

- theulu Jack Lloyd, y Rhath, a fu farw ar yr ail o Chwefror. Ganwyd Jack ym Mhorthmadog a bu'n gwasanaethu yn y Fyddin yn Norwy, yr Almaen a Phalesteina o 1944-1949. Symudodd i Gaerdydd ddechrau'r pumdegau a threulio dros 25 mlynedd yn bostman yn ardal Pen-y-lan.
- theulu y ddiweddar Nest Owen, Llandaf, gweddw y diweddar George Owen, a fu farw yn 80 oed yn Ysbyty Llandochau ar 15 Chwefror. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 2 Mawrth.
- theulu y diweddar Gwilym Williams, y pensaer o Borthmadog, ond a fuodd yn byw yng Nghaerdydd a Llanbrynmair yn ystod ei oes. Bu farw'n dawel yn Ysbyty Glan Clwyd yn 83 oed ar 14 Chwefror. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar 24 Chwefror.
- theulu y diweddar Rhys Mostyn Jones, Parc y Rhath, gŵr Margaret, a fu farw ar 10 Chwefror. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 28 Chwefror.
- theulu y diweddar Elfyn Scourfiled, Sili, Penarth, a hunodd ddydd Iau, 16 Chwefror, yn 70 oed. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf, Sili, ar 27 Chwefror a chladdedigaeth ym mynwent Capel Penybont, Trelech.
- theulu y diweddar Rowland Owen, a fu farw ar 27 Chwefror. Bu'n canu bas gyda Chôr Meibion Taf ers ffurfio'r côr. Daeth cais oddi wrth ei wraig Moyra i'r côr ganu 'Tydi a roddaist' a 'Gwahoddiad' yn ei angladd ar fore Sadwrn, 3 Mawrth yn ei gapel yn Methel Penarth cyn talu'r gymwynas olaf yn Amlosgfa y Fro.

# YSGOLION

## Ysgol Gymraeg Coed y Gof

**Ffarwelio**

Rydym yn ffarwelio am y tro â'n Pennaeth, Mr Mike Hayes, wrth iddo gychwyn ar secondiad i weithio gydag ESTYN. Dymunwn yn dda iddo ac edrychwyn ymlaen yn fawr at weld ei ddychwelyd ymhen blwyddyn. Bydd Mrs Rhian Williams yn gweithredu fel Pennaeth dros Dro a Mr Gwyndaf Jones fel Dirprwy Dros Dro yn ei absenoldeb.

Rhaid oedd ffarwelio â Miss Mari Davies ar ddiwedd tymor yr Hydref ac fe fydd colled mawr ar ei hôl. Mae'n ein gadael er mwyn teithio'r byd cyn cychwyn cwrs dysgu ym mis Medi 2012. Dymunwn yn dda iddi a diolchwn am ei gwaith caled gyda'r plant ac am ei chymorth parod gyda holl agweddau o waith yr ysgol. Disgwyliwn gardiau post o bedwar ban byd dros y misoedd nesaf!

**Rhannu newyddion da**

Llongyfarchiadau mawr i sawl aelod o staff ar enedigaethau plant yn ddiweddar. Cafodd Seth, mab i Miss Charlotte Christo, (cynorthwyes y ganolfan) ei eni nôl ym mis Medi a Deiniol, mab i Mrs Siân James, (athrawes y Ganolfan) ei eni ar ddechrau mis Tachwedd. Yn ystod mis Rhagfyr cafodd Steffan, mab i Miss Enfys Emlyn (Bl5) ei eni ac ym mis Ionawr, cyrhaeddodd Alys, merch i Mrs Fran Davies (Dosbarth Derbyn). Estynnwn ein llongyfarchiadau a dymuniadau gorau mawr i'r bedair ohonynt a'u teuluoedd.

**Croesawu Staff Newydd**

Estynnwn groeso mawr i nifer o staff a gychwynnodd yn yr ysgol ddechrau tymor y Gwanwyn. Fe fydd Miss Ffion Mullane a Mr Dafydd Evans yn dysgu Blwyddyn 5 a Miss Angharad Williams yn dysgu'r Dosbarth Derbyn yn ystod cyfnodau mamolaethau a secondiad. Yn ogystal ymunodd tair cynorthwyes newydd â ni, sef Mrs Bethan Thomas, Miss Rebecca Evans a Miss Alex Avoth. Rwy'n sicr y byddant yn ymgartrefu'n fuan yn ein mysg!

## Ysgol y Wern

**Cystadleuaeth Carol yr Ŵyl**



Llongyfarchiadau i gôr Ysgol y Wern am ennill y gystadleuaeth Carol yr Ŵyl 2011 ar raglen Wedi 3 S4C. Cyfansoddwyd y geiriau a'r alaw ar gyfer y garol 'Bocs o Gariad' gan Mair Long. Roedd y garol yn sôn am brofiad disygyblion yr ysgol o lenwi bocsys esgidiau a'u hanfon fel anrhegion Nadolig i blant Rwmania. Wrth ganu'r garol, trosglwyddwyd y neges pa mor bwysig yw hi i roi yn ogystal â derbyn. Roedd pawb yn llawn cyffro pan ddaeth y canlyniad a chyflwynwyd y tlws i Mair Long ar yr achlysur.

## Ysgol Bro Morgannwg

**Bethan Gwanas**




Dydd Llun 6ed Chwefror, daeth Bethan Gwanas i'r Ysgol i weithio gyda Sgwad 'Sgwennu blynyddoedd 7 ac 8. Ysgrifennon nhw straeon diddorol iawn dan ei harweiniad gan ddysgu sut i werthfawrogi a gwella gwaith ei gilydd. Cafwyd diwrnod arbennig iawn yn ei chwmni.

**Gymnasteg y Sir**



Cafodd pob tîm a gystadlodd yng nghystadleuaeth Gymnasteg y Sir yn ddiweddar lwyddiant. Roedd y tîm bechgyn hŷn yn fuddugol, y timoedd bechgyn iau a merched hŷn yn ail a'r tîm merched iau yn drydydd. Yn y gystadleuaeth unigol i'r bechgyn hŷn roedd Iwan Mepham yn 1af, Rhidian Mepham yn 2ail ac Emyr Byrne yn 3ydd. Roedd Ffion Byrne hefyd yn drydydd yn y gystadleuaeth unigol i ferched hŷn. Yn dilyn y gystadleuaeth mae Megan McIntyre, Rhys Beynon, Joseff Williams, Ffion Byrne, George Connelly, Emyr Byrne, Rhidian Mepham ac Iwan Mepham i gyd wedi ennill eu lle ar dîm Caerdydd a'r Fro a fydd yn mynd ymlaen i'r Gystadleuaeth Genedlaethol.

**Diwrnod Pontio Gwyddoniaeth**

Ar Ionawr 31 daeth 18 disgybl o'r ysgolion cynradd i Ysgol Bro Morgannwg i gymryd rhan mewn Gweithdy Gwyddoniaeth gyda 10 disgybl o Flwyddyn 7. Bwriad y dydd oedd cryfhau'r cysylltiadau Pontio rhwng yr ysgolion a rhoi cyfle i'r disgyblion cynradd i ddod i adnabod yr ysgol



cyn iddynt ddechrau ym mis Medi. Thema'r dydd oedd 'Llongddrylliad' a chafwyd sawl gweithgaredd ymestynnol gan gynnwys puro dŵr afon a môr, creu cysgod a chynllunio cwch. Diolch i Mr James Evans am arwain y diwrnod.

**Diwrnod Pontio Chwaraeon**

Ar Ddydd Gwener cyn hanner tymor daeth disgyblion blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd i ymweld â'r Ysgol i gymryd rhan mewn diwrnod chwaraeon. Yn ystod y dydd cafodd y disgyblion y cyfle i brofi gweithgareddau fel Karate, Twrnamaint Pêl-fasged, Athletau, Dawns a Jiwdo. Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus dros ben ac roedd pawb wedi mwynhau.

## Ysgol Glantaf

**Eisteddfod Glantaf – 29ain Chwefror**

**DYFRIG ILLTUD DEWI TEILO**

***Pwy sydd yn mynd i fod yn fuddugol eleni!***

Mae'r paratoadau am ein Heisteddfod eleni yn dod ymlaen yn llwyddiannus iawn â phob cornel o Lantaf yn frwdfrydig yn ymarfer y grwpiau dawnsio disgo, y grŵp offerynnau creadigol, y caneuon Ffrangeg ac Almaeneg, heb sôn am y 'pieste de resistance' – cystadleuaeth fawr y corau llys! Y Byd yn Un – 'World in Union' yw'r darn gosod am eleni, a hyfryd yw clywed y 4 côr yn ei morio hi yn ein cyfnodau ymarfer boreol. Mae'n mynd i fod yn gystadleuaeth agos iawn weden i! Un o'r cystadlaethau mwya' brwdfrdydig yw'r ensemble lleisiol –mae pawb eisiau ennill hon. Niferus iawn yw'r cystadleuwyr am y Rhuban Glas offerynnol – hŷn ac iau, ac fe fydd y rhagbrofion lleisiol ac offerynnol yn parhau am oriau! Mae si ar led hefyd bod ymgeiswyr y Gadair yn rhai da! Edrychwn ymlaen yn fawr at ddydd Mercher lle y gwelwn Glantaf ar ei gorau yn hybu y traddodiadau Cymreig sydd mor bwysig i ni fel cenedl. Diolch i chi ddisgyblion am eich brwdfrydedd a'ch egni.

Illtud oedd y llys buddugol y llynedd. Pwy fydd ar y brig eleni?!

Cewch wybod yn y rhifyn nesa! POB LWC I BAWB!

## Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

• Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar ddydd Gwener 10fed o Chwefror. Diwrnod llawn o gystadlu a mawr yw ein diolch i Aled Williams a Connie Fisher am feirniadu'r cystadlaethau. Llongyfarchiadau gwresog i lenorion buddugol yr Eisteddfod – Miri Hughes (Saesneg Iau), Mali Rees (Saesneg Hŷn), Alaw Davies (Cymraeg Iau) a Bedwyr ab Ion (Cymraeg Hŷn).



• Amsterdam - taith hynod o lwyddiannus (ac oer) i ddisgyblion Blwyddyn 9 o dan arweiniad yr Adran Addysg Grefyddol yn ystod mis Chwefror. Ymwelwyd â thy Anne Frank, un o addoldai mwyaf Ewrop … a chanolfan nofio!



• Ym mis Hydref 2012, bydd gan 4 o ddisgyblion y Chweched - Catrin Cox, Anna Powys, Luned Phillips a Catrin Williams y fraint o fynd gyda'r Urdd ar ymweliad â Phatagonia fel rhan o brosiect gwirfoddoli rhyngwladol. Wrth ymweld, bydd y merched yn gwneud sesiynau dysgu Cymraeg, gweithio mewn ysgolion i blant difreintiedig a phlant gydag anghenion arbennig. Y merched sydd yn trefnu'r daith, yn codi'r arian, ac yn cyfathrebu gyda'r partneriaid yn y Wladfa. Cyfle anhygoel ac unigryw, a phob lwc i'r bedair.

• Aeth criw o Flwyddyn 11 i aros yng Nglan-llyn yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd adolygu ar gyfer arholiad 'Y Stafell Ddirgel'. Cafwyd penwythnos braf yn crwydro strydoedd Dolgellau yn ymweld â lleoliadau'r nofel. Cafwyd y cyfle i olrhain hanes Crynwyr yr ardal a'r erledigaeth bu'n rhaid iddynt ei ddioddef. Diddorol oedd cwrdd â chriw o 'gofis Caernarfon hefyd. Doniol oedd gwrando ar arddegwyr o'r gogledd a'r de yn morio trwy gyfrwng y Gymraeg.

• Consider yourself … wedi eich gwahodd i gynhyrchiad Cymraeg yr Ysgol o 'Olifyr' ar nos Fawrth, Fercher ac Iau 13-15fed o Fawrth. Dim ond lle i 200 ar bob noson, felly dewch i fwynhau, ond gwyliwch eich eiddo rhag ofn bod 'pickpockets' yn y gynulleidfa!

# Newyddion o'r Eglwysi

## Y Crwys

**Y Gorlan**

Yn dilyn cyfnod gwyliau'r Nadolig cafodd aelodau Y Gorlan gyfnod difyr a diddorol. Ar brynhawn Dydd Mercher Ionawr yr 11eg daeth Rhiannon Alun Evans atom i roi anerchiad am fro ei mebyd yn ardal Cwm Wyre ger Llanddeiniol yng Ngheredigion. Merch fferm Glancarrog yw Rhiannon a'r byd o'i chwmpas yn ddelfrydol i dyfu fyny ynddo. Gallai gofio llwybrau gelltydd y fferm ar wahanol tymhorau o'r flwyddyn ac arhosodd y rhain yn fyw yn ei chof hyd y dydd heddiw, ond yn wahanol i lawer gall Rhiannon barhau i gerdded yr hen lwybrau gan fod ei theulu yn parhau i "Rwygo'r gwanwyn pêr o'r pridd" yng Nglancarrog.

Y Parchedig Dyfrig Lloyd oedd ein gŵr gwadd ar Ddydd Mercher Ionawr y 25ain a chawsom ganddo brynhawn difyr yn olrhain ei atgofion am y cyfnod a dreuliodd yn Sweden yn cael profiadau a'i cymhwysodd ymhellach i dderbyn urddau eglwysig. Bu ei brofiadau yn ystod ei dri mis yn Sweden yn aros yn hir yn y cof, hoffai feddwl a diolch nad oedd yno yn ystod yr hirlwm gaeafol.

Pythefnos yn ddiweddarach daeth Betsan Evans atom i rannu ei phrofiadau hi gyda Chwmni Dawnsio Gwerin Caerdydd. Cwmni yw hwn a sefydlwyd dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ac mae'n dal yn heini ac yn llon. Cyfeiriodd Betsan at rai o'r teithiau mawr a greodd argraff annileadwy arni: cafodd y profiad o fynd i Moscow a rhyfeddu at odidowgrwydd y Sgwâr Coch, a'r profiad pellach o hedfan i'r Wcraen a phrofi tlodi y trigolion yno. Stori pur wahanol oedd hi pan gawsant gyfle i fynd i Texas a gweld Amgueddfa brwydr yr Alamo.

**Y Gymdeithas**

Yn dilyn gwyliau'r Nadolig cafwyd dechrau da i weithgareddau Y Gymdeithas gyda chwrdd gweddi dechrau'r flwyddyn ar Nos Wener Ionawr 6ed. Fe'i trefnwyd gan swyddogion y Gymdeithas a chafwyd ymateb da gan aelodau'r capel. Roedd y festri yn gyffyrddus lawn i wrando ar ddarlleniadau perthnasol, emynau a gweddiau ystyrlawn mewn ysbryd o newyddeb.

**Y Grŵp Merched**

Cyfarfu y Grŵp Merched ar Nos Lun Ionawr y 9fed i wrando ar nifer o'u haelodau yn trafod rhai o'r trysorau bach hynny sydd ym mywyd pawb ohonom: pethau a gasglwyd gennym nad ydynt o werth i neb arall efallai ac eto maent yn cyfoethogi cof ei perchennog. Y cyfranwyr oedd Kathleen Wood, Mari Wiliam, Cathryn Jobbins a Pat Lister.

## Capel Ebeneser

**Derbyn aelod newydd**

Yn dilyn cymeradwyo Carl Morris yn y cwrdd gweddi ar nos Lun, 31 Ionawr braf oedd cael ei dderbyn yn aelod cyflawn ar nos Sul, 6 Chwefror. Mae Carl Morris wedi bod yn ymuno yn yr addoliad ers dros flwyddyn a hanner mae'n siŵr ond teimlodd ar ei galon ei fod am fod yn aelod cyflawn o'r teulu yn Ebeneser. Yn wreiddiol o Slough, mae Carl yn byw a gweithio yng Nghaerdydd; ac yn gyd-sylfaenydd cwmni nativehq.com. Cwmni yw hwn sy'n arbenigo ar greu a datblygu gwefannau ac yn cynnig nifer o wasanaethau cyfrifiadurol eraill. Ewch i wefan ei gwmni www.nativehq.com ac i'w flog personol http://quixoticquisling.com/

**50 oed**

Ar 16 Chwefor, 1962 cafodd Alun Tudur ei eni, ac ar y diwrnod hwnnw eleni daeth dydd o brysur bwyso! Os ydych yn nabod Alun Tudur bydd rhaid i chi ofyn iddo fo beth yw ystyr y gosodiad yna! Yn dilyn oedfa'r bore ar 13eg o Chwefror cawsom ddathliad bach yn y festri drwy gyflwyno anrheg fach iddo a chael paned a chacen yng nghwmni ein gilydd. Buan sylweddolwyd ei fod yn drydedd garreg filltir yn ei fywyd mewn gwirionedd, yn y chwe mis diwethaf, gan iddo ddathlu 25 mlynedd o briodas a 25 mlynedd yn y weinidogaeth fis Medi diwethaf. Llongyfarchiadau iddo a diolch iddo am ei weinidogaeth rymus yn Ebeneser.

**Brethyn Cartref**

Ar nos Fawrth 21 Chwefror cawsom gipolwg ar fagwraeth dau o'n haelodau a golwg ar froydd eu mebyd. Machynlleth oedd bro mebyd Gwyn Briwnant-Jones a phentref bach Mynytho, ym Mhen Llŷn oedd ardal magwraeth Elin Elis Jones. Cawsom wybod fel roedd bywyd a diwylliant y ddau le wedi gadael ei farc arnynt. Dau 'gog' sylwch a dyna beth rhyfedd oedd sylweddoli fod hanner y gynulleidfa'n wreiddiol o'r gogledd hefyd. Rhyfedd o fyd ynde!

## Minny Street

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn ddiolchgar am Emyr Daniel a fu farw ar 10 Chwefror. Yn ddarlledwr a chynhyrchydd teledu adnabyddus, daeth atom i Minny Street chwe blynedd yn ôl a bu'n aelod ffyddlon yn ein hoedfaon a chyfarfodydd wythnosol. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu cyfan.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Mari Greta, merch Rebecca a Matthew Lyne-Pirkis (Hampshire), ac wyres i Rhiannon a Gerald Murphy.

**Croesawu ffrindiau o Benrhys**

Pleser mawr oedd croesawu ffrindiau o Eglwys Llanfair, Penrhys atom fore Sul 12 Chwefror. A hithau newydd ddychwelyd o ymweliad â Madagascar ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, braf oedd croesawu Sharon Rees, un o aelodau staff parhaol Llanfair, a thri o'i chydweithwyr - Miara a'i ferch dair blwydd oed Hannah, Lalao o Fadagascar, ac Eunyoung o Dde Korea. Cawsom gyfle i glywed am yr hyn sy'n digwydd ym Mhenrhys, yn arbennig felly ymysg yr ieuenctid a'r Ysgol Sul, ynghyd â'r darlun diweddaraf am sefyllfa fregus Madagascar.

**Myfyrio yn ystod y Grawys**

Yn Minny Street, nos Iau 23 Chwefror, o dan arweiniad y Gweinidog, y cynhaliwyd y cyntaf o gyfres o Gyfarfodydd Grawys 2012 Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd.

Rhaid, meddai'r Gweinidog, i ni beidio ag ymddiheuro am y trysor sydd gennym. Buom, meddai, yn

"euog o'r *dumbing down* mwyaf brawychus - troesom ein trysor drud yn fetel rhad oherwydd i ni feddwl mai dyna beth oedd pobl eisiau." Fe'n heriodd i ddangos i'n cyd-Gymry ôl-grefyddol bod angen crefydd o hyd, a bod yn rhaid wrth gymdeithas yr eglwys leol i ddarganfod Duw. Rhannwyd cynulleidfa niferus y cyfarfod yn nifer o grwpiau i drafod pump o ddyfyniadau ysgogol o eiddo'r academydd Eileen Baker, y Prif Weinidog David Cameron, yr actores Sally Phillips, y cyfreithiwr Julian Rivers a'r diwinydd Hans Küng. Bu'r drafodaeth yn drwyadl a chynhyrchiol. Bydd cyfres arbennig o fyfyrdodau gan y Gweinidog ar gyfer y Grawys ar wefan yr eglwys hefyd.

Am holl newyddion Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Salem, Treganna

**Clwb Brecwast**
Cyfarfu'r Clwb Brecwast ddwywaith yn ystod y mis, ar gyfer rhieni a phlant o dan oed meithrin. Croeso i chi ymuno â ni am yn ail fore Mercher am 9.45.

**Adran yr Urdd Salem**
Mae'r adran yn cwrdd bob nos Iau y tymor hwn rhwng 6 a 7. Mae gwaith celf gwych yn digwydd wrth i'r plant fwynhau creu modelau, ac mae'r plant wedi dechrau paratoi ar gyfer cystadlu yn yr eisteddfod gylch.

**Clwb y Bobl Ifanc**
Gwych oedd gweld cynifer wedi cwrdd yn McDonalds i drafod syniadau ar gyfer y flwyddyn. Cyffrous iawn oedd yr awgrymiadau, ac mae pawb yn edrych ymlaen at raglen yn llawn hwyl a chyffro!

**Grŵp Canu**
Bob nos Fawrth yn ystod Chwefror daeth y grŵp canu at ei gilydd o dan arweinyddiaeth Geraint Cynan. Edrychwn ymlaen at eu clywed cyn hir!

**Cylch Trafod Beiblaidd**
Daethom at ein gilydd fore Mercher 8 Chwefror ar gyfer ein cylch trafod Beiblaidd yn ystafell Edwin, a'r testun o dan sylw oedd y bregeth ar y mynydd.

**Clwb Coffi**
Ddydd Gwener 10 Chwefror cynhaliwyd y clwb coffi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb ymuno â ni am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

## Tabernacl

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Richard a Jean Davies, Coryton ar enedigaeth wyres iddynt. Ganwyd Alys Elen i Andrew a Fran Davies ganol mis Ionawr.

**Derbyn aelod**
Profiad hyfryd oedd derbyn aelodaeth Gill Thomas yn ôl o Eglwys y Bedyddwyr, Pentyrch St.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn i Gareth a Shirley Ann James a'r teulu ein cydymdeimlad didwyll ar achlysur trist yn eu bywyd. Bu farw tad Gareth, a oedd yn byw yn Nhredegar, ddechrau mis Ionawr.

Hefyd, bu farw Dilys Smith, mam Susanne. Roedd y teulu'n hanu o ardal Rhymni.

**Sbloets Sadwrn**
Ar Sadwrn cyntaf Ionawr, daeth nifer sylweddol o deuluoedd ifanc ynghyd i ddechrau ar fenter newydd i'r eglwys. O dan arweiniad Marc Jon, lansiwyd y gweithgaredd aml-weddog hwn i gynnig ystod eang o brofiadau i blant cynradd yn benodol, er mwyn iddynt fwynhau bod mewn eglwys.

**Trydaru gyda'r Tabernacl**
Sefydlwyd cylch i drydar yn ddiweddar o dan arweiniad Mererid Jenkins. Nid yn unig bydd hyn yn fodd o gryfhau cysylltiadau cymdeithasol yr eglwys, ond hefyd i hysbysebu digwyddiadau sy'n ymwneud â'r eglwys neu yn defnyddio'r adeilad.

**Cymdeithas y Chwiorydd a Chymdeithas nos Fawrth**
Ailgydiodd rhaglen y ddwy gymdeithas hyn yn ddiweddar ac mae'n braf nodi fod y niferoedd yn gadarnhaol iawn a'r arlwy yn hynod o ddifyr.

**Côr yr Eglwys**
Fel y cyhoeddwyd, dechreuodd côr yr eglwys ymarfer ar Sul cyntaf Chwefror o dan arweiniad Euros Evans. Bwriedir cynnal y gyngerdd ar nos Fawrth, Ebrill 3ydd.

**Cyngherddau**
Cynhaliwyd nifer o gyngherddau dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Bu'r safon yn eithriadol uchel. Y diweddaraf ohonynt oedd cyngerdd gan 'Pedw4r', sef pedwarawd o gorws y Cwmni Opera Cenedlaethol. Er yr hysbysebu eang, nid oedd y gynulleidfa yn deilwng o'r arlwy fendigedig.

**Bore Coffi**
Diolch i Jean Evans am ei chroeso arferol ym mis Ionawr. Ym mis Chwefror, cawsom gyfle i ymweld eto gydag aelwyd Beryl Eurig Evans yn y Mynydd Bychan.

## Eglwys Dewi Sant

**Llongyfarchiadau**
Rydym yn ymfalchïo gyda Marian Fairclough, un o'n horganyddion, am fod y wraig gyntaf i gael ei hethol yn aelod o gyngor Cymdeithas Organyddion De Ddwyrain Cymru. Mae'r gymdeithas yn aelod cyswllt o Gymdeithas Gorfforedig Organyddion y Deyrnas Unedig.


**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Endaf a Charlotte Amos ar enedigaeth Elen Rosa, wyres gyntaf Mel ac Elvira Amos, ac i Non a Rob ar enedigaeth Ifan Lewis, ŵyr cyntaf Dilys Jones.

**Cymdeithas Nos Iau**
Ym mis Chwefror aeth criw i Fowlio Deg yn y Bae ac fe gafwyd noson hwyliog iawn. Mel Amos oedd pencampwr un tîm a Phil Jones y tîm arall. Ar ôl yr holl weithgaredd ac i gloi'r noson aeth pawb gyda'i gilydd i fwyty Eidaleg cyfagos am swper blasus.

**Dydd Mercher y Lludw**
Cafwyd gwasanaeth llawn awyrgylch i ddynodi cychwyn y Grawys. Canwyd anthem gan y côr ac fe arnodwyd lludw ar bob aelod o'r gynulleidfa.

**Cadwch y Dyddiad**
Ar Fawrth 31ain bydd Côr Philharmonic Caerdydd o dan arweinyddiaeth Alun Guy yn cynnal cyngerdd o weithiau Karl Jenkins yn yr eglwys. Dyma ddyddiad pendant i'n dyddiaduron.

# DINESAIR Rhif 120



**Ar Draws**

1. Tric fel y diwedd (6)
5. Dyfod o hyd i faes y 50 (4)
7. '____ ____ ____ ____ i'th weryd
   A daeth i ben deithio byd' (RWP) (4,3,1,4,)
9. Y naw yn rhoi genedigaeth ar y fferm (4)
10. Cylch i broffwydes gael crwydro (8)
12. Ceirw yn neidio i dy ochr (6)
13. Arwr yw'r cawr sy'n dal Aelod Seneddol yn Lloegr (6)
16. Arwr yn dal eithin wedi'i docio i'r siaradwr (8)
18. Cefnu ar y diod yn dilyn dechrau llon yn y dafarn (4)
20. Rhoi'r holl sylw i'r gwasg? (12)
21. Hanner llawn calsiwm yn y llaid (4)
22. Un sy'n pigo y dyn gorau (7)

**I Lawr**

1. '____ ____ ____ ____ ôl mynd adref
   Trwy gystuddiau rif y gwlith' (EG) (2,2,4,2,)
2. Un destlus yn hanner troi y rhif 15 heb ddechrau (7)
3. Cael ffrwyth yng nghanol gaeaf alaethus (4)
4. Bonclust ar ên ryfedd (6)
5. Rhywbeth i'w sibrwd i'n cyfarch ni efallai (8)
6. 'I ____ ynom nefol dân
   Duw, anfon dy Lân Ysbryd' (JH) (5)
8. 'Fe'th welais di ar lawnt y plas
   A gwyntoedd ____ ____ ____ eu min' (IDH) (5,2,3,)
11. Gyrru anifeiliaid ar y Ffordd i'r Ynys arall gyntaf (8)
14. Rhoi peth rhent yn y pris i'r dysgwr crefft (7)
15. Pryfed o afon a'i gwely yn Lloegr (6)
17. '____' mryd a gwared fi
    Rhag culni o bob rhyw' (cyf WNW) (5)
19. Swydd lawn ar yn ail yn cael ystyriaeth (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Mawrth.

**Enillydd Croesair Rhif 118 -**

**Peter Rowlands, Caerffili**

**Atebion Rhif 118**

**Ar Draws** – 1. Ar y map; 4. Dadlau; 7. Crocbris; 8. Saer; 9. O bydd drugarog; 13. Llond; 14. Isel; 15. Fugeiliad yn; 18. Cawl; 19. Cydymaith; 20. Athrist; 21. Gwylio

**I Lawr** – 2. Yfory; 3. Perarogli; 4. Dos; 5. Dy sêr di-ri; 6. Ar ei gwely; 7. Clo; 10. Bronfraith; 11. Ddod a golchi; 12. Gerfiedig; 16. Di-ail; 17. Nyth; 19. Cwt


# Cwlwm Busnes Caerdydd

**Cynhelir ein Cinio Blynyddol yng Ngwesty'r Hilton, Nos Iau, Mawrth 22ain am 7.30yh.**

Ein Gŵr Gwadd eleni yw Mr Ron Jones, Cadeirydd Gweithredol, cwmni teledu Tinopolis.

*Mae croeso i unrhywun sydd â diddordeb yn y byd busnes i ymuno â ni*

Tocynnau (£45.00 yp) neu byrddau o 8 neu 10 oddi wrth Geraint Hampson-Jones ar 0845 213 1220 neu Geraint.hampson-jones@brewin.co.uk






Mae Sain Ddisgrifio ar gael yn Gymraeg ar nifer o raglenni S4C. Mae disgrifiadau o symudiadau a mynegiant yn rhoi bywyd i raglenni ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gweld.

Am fwy o wybodaeth am ein gwasanaeth Sain Ddisgrifio cysylltwch â Gwifren Gwylwyr ar 0870 600 4141 neu ewch i s4c.co.uk.

# Calendr y Dinesydd • Mawrth-Ebrill

**Sadwrn, 10 Mawrth**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dewi George ar y gerdd 'Rhydcymerau' (Gwenallt) am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 11 Mawrth**
'Cadwyn o Gariad'. Oedfa Sul Cymuned Corrymeela am 10.30am yn y Tabernacl, Yr Ais, dan ofal Dr Robin Gwyndaf.

**Llun, 12 Mawrth**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Swper Gŵyl Ddewi ac adloniant, yng Nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Mawrth**
Merched y Wawr Caerdydd. Rhys Iorwerth, enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011, yn trafod ei gerdd arobryn, 'Clawdd Terfyn', yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Mawrth, 13 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Wrth fy ngwaith' – gyda Bethan Jones a Zac Davies, yn festri Capel Minny Street, am 7.30pm.

**Gwener, 16 Mawrth**
Clwb y Diwc yn cyflwyno Gig y Chwe Gwlad gyda Dafydd Iwan, yn nhafarn y Duke of Clarence, Treganna am 8.00pm. Noson cyn y gêm rygbi yn erbyn Ffrainc. Tocynnau yn £10 o siop Caban.

**Gwener, 16 Mawrth**
Noson cyn gêm Cymru v Ffrainc: Noson yn cyflwyno'r ffilm Grand Slam yng nghwmni John Hefin, Sharon Morgan, Sion Probert a Dewi Pws yn Churchills Llandaf am 8yh. Tocynnau £15, yn cynnwys lluniaeth ysgafn; ar gael gan Gwyn ar 01446 760608 neu eirlysagwyn@btinternet.com

**Llun, 19 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Sasha Wyn Davies (Cyngor Sir Fôn) ar y testun 'Ynys Ynni Môn'. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 21 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Dychwelyd i Algeria.' Sgwrs gan Elwyn Moseley, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 22 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (3), yng ngofal aelod o Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Yng Nghapel Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30pm.

**Gwener, 23 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Aled Rhys Hughes ar y testun 'Breuddwydio'r Wybren Las: Y Gwahaniaeth rhwng Tynnu Llun a Gwneud Llun'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm.

**Sadwrn, 24 Mawrth**
Gêm gynghrair bwysig Cwins Caerdydd yn erbyn Oakdale. Cyfle am ddyrchafiad! Maes Diamond, Yr Eglwys Newydd. C.G. 2.30pm.

**Mawrth, 27 Mawrth**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) gan yr Athro Prys Morgan ar y testun 'Islwyn a Mynyddoedd Cymru'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 27 Mawrth**
Cylch Cadwgan. Aneirin Karadog yn darllen a thrafod ei waith yng Nghlwb Rygbi Pentyrch am 8.00pm. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Iau, 29 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Cinio Pen Tymor, yng Nghlwb Golff Llanisien am 7.00pm. Gwestai: Lona Evans.

**Gwener, 30 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Ieuan Wyn Jones, A.C., ar y testun 'Cymru yn Symud Ymlaen wedi'r Refferendwm', yn festri Capel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Sadwrn, 31 Mawrth**
Côr Philharmonig Caerdydd yn perfformio 'Requiem' a gweithiau eraill gan Karl Jenkins, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30pm.

**Llun, 2 Ebrill**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr gwadd: Gareth Rees Jones. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 4 Ebrill**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson Carwyn Tywyn a'r delyn deires, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 5 Ebrill**
Ffotomarathon Clwb Gwawr Llygaid y Dydd am 8.00pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Gwener, 6 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Dydd Gwener y Groglith, dan ofal y Parchg Dyfrig Lloyd, yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 2.00pm.

**Sadwrn, 7 Ebrill**
Gêm gynghrair bwysig Cwins Caerdydd yn erbyn Cwmbrân. Cyfle am ddyrchafiad? Maes Diamond, Yr Eglwys Newydd. C.G. 2.30pm.

**Mawrth, 10 Ebrill**
Merched y Wawr Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm.

**Iau, 12 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Cinio olaf y tymor, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwesteiwraig: Mair Carrington Roberts. Croeso cynnes i bawb, yn enwedig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (Tel. 029-2069-4667).

**Sadwrn, 14 Ebrill**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Marc Evans ar y testun 'Taith Dysgwr' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

## Oriau Hapus

Ydy, mae'r Awr Hapus bellach yn ddeg oed ers mis Tachwedd llynedd ac yn dal i gyfarfod ar foreau Llun yn ystod y tymor yng Ngwesty Pentref, Heol Pendwyallt, Coryton rhwng 10.45 - 11.45. Croeso cynnes i bob dysgwr a dysgwraig a diolch i Barbara Morgan a Mair Morgan am eu cymorth ers 2001.

Mae Pnawn Sul Hapus yn parhau i gyfarfod yn fisol, 2.45 - 4.00, yn nhŷ John a Thelma Dann, 8 Heol Santes Farged, Yr Eglwys Newydd. Darllen a deall darn o'r Testament Newydd yw'r gweithgarwch arferol yna sgwrs fach, paned a bisgedi yn dilyn. Cyfarfod nesaf: Dydd Sul, 25 Mawrth. Os am wybod mwy am yr oriau hapus, cysylltwch â Gwilym. Ebost: eirian.dafydd@ntlworld.com Diolch.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ann Saer, Llandaf, oedd y siaradwraig yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Gymdeithas ar nos Lun, 20 Chwefror. Cafwyd sgwrs hynod o ddifyr ganddi am yr Oriel Newydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol.

# Ymatebion i lythyr "Rhiant Pryderus"

## *(Dinesydd Chwefror)*

Annwyl Olygydd

Rwy'n deall yn iawn fel mae y rhiant uchod yn teimlo, ac mae y broblem hyn wedi bodoli ers canol y 1970au. Roedd iaith y plant oedd yn dod o gartrefi Cymraeg yn dirywio hyd yn oed yn yr ysgolion cynradd o achos eu bod nhw yn y lleiafrif mewn dosbarth o ddysgwyr. Plentyn 5 mlwydd oed yn dweud "Pam wyt ti'n hala fi i ysgol Gymraeg? Rwy'n siarad Cymraeg yn barod!" H.y. roedd y gwersi iaith yn wastraff amser iddo ac yn boring achos roedd e'n deall hwnnw i gyd yn barod.

Felly y cwestiwn yw fel i ddatrys y broblem, a'i datrys hi sydd raid, achos mae'r iaith yn dirywio, yn enwedig ar lafar.

Rwy'n cefnogi'r twf yn yr ysgolion Cymraeg, ac yn cydnabod na fyddai hynny'n gallu digwydd heb gefnogaeth y rhieni di-Gymraeg. Ond i ymrafael â'r broblem sy'n codi oherwydd yr ystod eang o lefelau iaith, mae'n rhaid ffrydio yn ôl gallu ieithyddol y plentyn, fel bod pob lefel yn cael ei dysgu ar y safon briodol. Os ydy'r iaith yn wan iawn mae'n rhaid rhoi gwersi ail iaith i'r rhai hynny fel y bont yn cyrraedd safon foddhaol. Gellid dadlau yr un safbwynt o ran pob pwnc yn y cwricwlwm.

Ond os nad yw safon yr iaith Gymraeg yn dda mae'n cael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn ar draws yr holl gwricwlwm. Dim ond yr wythnos ddiwethaf roedd Prif Arolygydd ESTYN yn dweud rhywbeth tebyg am safon yr iaith Saesneg yn ysgolion Saesneg Cymru.

**EMVJ**
Llandaf

~~~~~~~~~~~~

Annwyl Olygydd

Fe hoffwn ysgrifennu traethawd i ateb llythyr Rhiant Pryderus yn rhifyn Chwefror o'r Dinesydd, ond go brin y câi hynny groeso!

Gallaf ddeall ei safbwynt, a rhaid cyfaddef bod gyda fi rywfaint o gydymdeimlad, achos greddf naturiol pob rhiant yw dymuno cael y gorau i'w blant – a dim ond y gorau. Syniad Rhiant Pryderus yw creu 'corlan i'r cadwedig' o ran y Gymraeg. Yn yr un modd gallech chi ddadlau mai syniad gwych fyddai cael ysgol heb 'blant drwg' i darfu ar y gwersi a bwlian y rhai diniwed. Pe bai'r heuwr yn y ddameg honno wedi cadw'i hadau dim ond i'r tir ffrwythlon, bydde fe wedi arbed llawer o drafferth. Ond faint o ffrwyth da fydde fe wedi'i golli?

Rhaid derbyn bod yna leiafrif 'anghydffurfiol' ym mhob ysgol, a maen nhw'n gallu bod yn broblem. Ond dyw hynny ddim yn tanseilio popeth da y mae'r ysgolion Cymraeg yn ei gyflawni. Ydy, mae cynnal y safonau yn waith caled, ond os bosib os nad oes digon o dystiolaeth o lwyddiant yn hyn o beth. Dyw pob disgybl ddim yn gadwedig, wrth gwrs, ac mae safon iaith y rhai sy'n dewis ei defnyddio yn amrywio (fel y mae safon iaith Saesneg yn amrywio yn yr ysgolion Saesneg) – ond mae mwy o achos i ddathlu nag i ddigalonni.

Rai blynyddoedd yn ôl, adeg yr ymgyrchu cynnar dros addysg Gymraeg yn y rhan hon o Gymru, roedd cael cefnogaeth y rhieni di-Gymraeg yn rhan hanfodol o'r frwydr. Roedd yn rhaid cael y niferoedd er mwyn cyfiawnhau'r gwariant. Hebddyn nhw, byddai plant y Cymry Cymraeg brwd wedi gorfod parhau i gael eu haddysg mewn ysgolion Saesneg – neu mewn un neu ddwy o ysgolion bach. Erbyn hyn mae'r afon yn codi, a phan fo llif yn yr afon mae'r dŵr yn 'drwbwl'. Beth sy orau i'r pysgodyn – dysgu nofio yn y llif neu dindroi mewn ambell i bwll o ddŵr glân?

**Bryan James**
Llandaf

# Cylchgrawn Golwg ar lein

***Annwyl Olygydd,***

Ga' i dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun cyffrous, newydd gan gwmni Golwg.

Mae'n siŵr bod nifer fawr o'ch darllenwyr yn gyfarwydd â chylchgrawn wythnosol Golwg, sydd wedi bod ar silffoedd ein siopau lleol ers dros 23ain o flynyddoedd. Erbyn hyn, mae'n bosib i bawb sydd ag i-ddyfais (i-ffôn neu i-pad neu i-pod, er enghraifft) brynu cylchgrawn Golwg a'i ddarllen yn electronig ar eich dyfais symudol bob wythnos.

Dyma'r App cynta erioed i gael ei lansio gan gylchgrawn Cymraeg – apGolwg! Mae'n ffordd newydd sbon o brynu'r cylchgrawn a chael ambell i beth ychwanegol.

Bydd y cylchgrawn i gyd yno mewn ffordd hawdd ei ddarllen a hawdd symud o le i le ond bydd hefyd gyfle ichi fwynhau clipiau fideo a lincs ychwanegol.

Mantais arall yw y bydd y fersiwn App ar gael y funud y mae'r cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi, ble bynnag y byddwch chi yn y byd. Bydd y rhifynnau yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn print ac yn costio yr un faint – namyn ceiniog!

Mae'n gyfle gwych i bobl sy'n byw dramor ddarllen Golwg yn rheolaidd. Mae'n bosib i chi danysgrifio i apGolwg am flwyddyn, chwe mis neu dri mis – neu wrth gwrs mae'n bosib prynu fesul rhifyn.

Felly, ewch amdani – apiwch, i fod yn rhan o'r datblygiad hanesyddol hwn. Ewch i wefan i-tunes a chwilota am ap-Golwg, neu am fwy o wybodaeth ebostiwch marchnata@golwg.com

Yn gywir,
**Sian Sutton**
*Golygydd Cylchgrawn Golwg*


STEAM PIE YN CYFLWYNO

ALLAN YN Y FAN

TAITH PWNCO GWANWYN 2012

| | | |
|---|---|---|
| **EBRILL** | | |
| 15 | Canolfan Gelfyddydau Chapel, Caerfaddon | 01225 461700 • chapelarts.org |
| 20 | Theatr Soar, Merthyr Tudful | 01685 722176 • theatrsoar.com |
| 27 | Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron | 01570 470697 • theatrfelinfach.com |
| **MAI** | | |
| 5 | Theatr y Lyric, Caerfyrddin | 0845 226 3510 carmarthenshiretheatres.co.uk |
| 11 | Canolfan Gelfyddydau, Aberystwyth | 01970 623232 aberystwythartscentre.co.uk |
| 12 | Sefydliad Glowyr y Coed-duon | 01495 227206 • caerphilly.gov.uk/bmi |
| 16 | Theatr y Grand Abertawe, Adain y Celfyddydau | 01792 475715 swanseagrand.co.uk |
| 17 | Theatr Richard Burton, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru Caerdydd | 029 20391391 rwcmd.ac.uk |
| 18 | Theatr Colwyn, Bae Colwyn | 01492 577 888 • theatrcolwyn.co.uk |
| 19 | Canolfan Ucheldre Caergybi | 01407 763361 • ucheldre.org |
| 25 | Neuadd Dwyfor, Pwllheli | 01758 704088 gwynedd.gov.uk/neuadd-dwyfor |
| 26 | Y Neuadd Les Ystradgynlais | 01639 843163 • thewelfare.co.uk |

"Ysbrydoliaethol"
Max Boyce

Mae'r albwm newydd PWNCO ar gael nawr!



www.ayyf.co.uk
~~~~~~~~~~~~

# AELWYD HAMDDEN CYMRY CAERDYDD

Cychwynodd 2012 â chyfarfodydd diddorol ac amrywiol.

Y gwestai cyntaf yng nghyfarfod Ionawr 11eg oedd Teleri Grey, fu'n sôn am ei chyndadau, sef teulu Abram Wood a phrif deulu'r sipsiwn Cymreig. Manylodd ar ddawn gerddorol llawer o'r teulu, nifer ohonynt yn delynorion dawnus. Yn ei ffordd fyrlymus, cyflwynodd Teleri hanesion a chwedlau y Romani gan roi chwerthyniad iach i'r gwrandawyr bodlon.

Ymhen pythefnos aeth yr athro a'r threfnydd iaith, John Albert Evans, Llysfaen, â ni ar daith addysgol, gan ddisgrifio llu o gymeriadau - yn gyd-athrawon, prifathrawon ac addysgwyr - a ddaeth i gysylltiad â hwy drwy ei yrfa. Hefyd, rhoddodd ddarlun clir o lwyddiant dysgu Cymraeg mewn canolfannau fel Nantgwrtheyrn ac yn y Ddinas a'r Fro.

Ar ddechrau Chwefror, ymwelodd aelodau'r Aelwyd â Phlasdy'r Maer. Wedi derbyn lluniaeth ysgafn, croesawodd Yr Arglwydd Faer, Dr. Delme Bowen bawb i grwydro o gwmpas y lle moethus, llawn hanes, gan ddysgu llawer am Arglwydd Feiri'r Brifdinas a Barnwyr y Llys. Tystiodd pawb ei fod yn ymweliad cofiadwy.

Ar Chwefror 22ain, y gwestai oedd Huw Euron, Enillydd y Rhuban Glas Eisteddfod Glyn Ebwy 2010, ac aelod o Gôr 'Only Men Aloud'. Swynodd pawb gan ei ddawn lleisiol unigryw, ac hefyd ei ddewis o ganeuon, o'r Hen Ganiadau R. S. Hughes, Dilys Elwyn Edwards ac eraill i unawdau cyfoes cerddorion adnabyddus. Ei gyfeilydd dawnus oedd Eilonwy Jones, Arweinydd Côr ein Aelwyd.

Bydd y Llywydd, Idwal Hughes yn falch i groesawu aelodau newydd i ymuno â'r Aelwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Festri Minny Street ddydd Mercher, 7fed o Fawrth am 1.00 o'r gloch, yng nghwmni'r Prifardd, Y Parchedig Aled Gwyn.

# *Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru*

## Gwahoddiad i gydweithio

Lansiwyd y Gymdeithas newydd hon ar 1 Hydref 2011 yn Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yng nghwmni Alun Ffred Jones AC. Cyfeiriodd Alun Ffred at yr angen i warchod enwau hynafol ac i godi ymwybyddiaeth o'u gwerth ieithegol, hanesyddol a diwylliannol. Gwelai gyfle gwych i greu fforwm cenedlaethol i drafod ac i lefaru ag un llais cryf.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus iawn i fwrw gwreiddiau ar draws Gymru gyfan ac i greu cyfleoedd i bawb ymuno â'r fenter, gan gynnwys dysgwyr a'r di-Gymraeg. I'r perwyl hwn, rydym yn awyddus iawn i greu cysylltiadau byw gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb mewn casglu a chofnodi enwau, mewn cynllunio gweithgareddau yn lleol, mewn cefnogi gwaith mewn ysgolion neu sydd am gynnig unrhyw syniadau addas eraill, i gysylltu â'r Gymdeithas. Gellir gwneud hynny naill ai drwy'r wefan neu trwy gysylltu â Rhian Parry sy'n cydlynu ar ran y Gymdeithas. (Manylion isod.)

Mae'n bur debyg mai yng Nghaerdydd y cynhelir y gynhadledd nesaf.

**Rhian Parry**,
Tŷtandderwen, Pencefn, Dolgellau,
Gwynedd LL40 2ER.
(01341423144)
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# RICHARD LESLIE JONES (1925 - 2012)

Bu farw'r Parchedig R. Leslie Jones ar 13 Chwefror yn ei gartref yn Pencisely Crescent, Llandaf. Roedd yn briod gyda Beryl ers 58 o flynyddoedd.

Bu'n weinidog ymroddgar gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru ers 1952, yn wreiddiol o Lwynhendy, Llanelli. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Nantymoel.

Symudodd i Landaf ar ddechrau'r 80au a bu'n weinidog ar eglwysi'r Tabernacl Yr Eglwys Newydd, y Tyllgoed ac Heol Eglwys Gadeiriol. Bu'n llywydd ei enwad ar ddechrau'r 90au ac yn enwedig wedi ymddeol gwasanaethodd ar nifer o bwyllgorau gan gynnwys Coleg Trefeca a Chyngor Cymru ar Alcohol. Bu Leslie a Beryl yn cefnogi Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd.

Roedd Capel Tyllgoed yn orlawn i'w angladd ar fore Llun, 27 Chwefror. Talwyd teyrngedau haeddiannol iddo gan y Parchedigion Glaslyn Bowen, Aberdâr, Dafydd Andrew Jones a gweinidog presennol cylch y dair eglwys a enwyd uchod sef y Parchg Geoffrey Barrington. Roedd claddedigaeth i ddilyn yr oedfa o ddiolch am ei fywyd ym Mynwent Radur.

*Gwilym Dafydd*

# Rysáit Mis Mawrth

## CAWL CIG MOCH MWG A CHENNIN

Bydd eich ffrindiau wrth eu bodd â dysglaid gynnes o'r cawl sylweddol hwn a bara crystiog ffres ar noson oer ym mis Mawrth.

Digon i: 4 Paratoi: 20 munud
Coginio: 25 munud

***Cynhwysion***

1 llond llwy fwrdd olew olewydd
Dwy genhinen
Tair tafell cig moch mwg, mewn ciwbiau
30g menyn
1 winwnsyn, wedi'i dorri'n ddarnau
2 ewin garlleg, wedi'u torri'n fân
480g tatws (tua phedair ganolig), wedi'u plicio a'u torri'n ddarnau 2cm
1 ddeilen llawryf
1 sbrigyn teim
300ml gwin gwyn
800ml stoc llysiau
100ml llaeth
100ml hufen dwbl

***I'w weini***

Halen seleri, a phupur du
15g cennin syfi ffres, wedi'u torri'n ddarnau

***Dull***

Trimiwch y cennin a'u sleisio'n gylchoedd main. Rinsiwch mewn colander o dan ddŵr oer a'u gadael i ddraenio. Ffriwch y cig moch yn yr olew olewydd mewn sosban â gwaelod trwm. Pan fydd wedi coginio, codwch y cig moch â llwy dyllog i ddysgl fach a'i gadw.

Rhowch y menyn yn y sosban a choginio'r winwnsyn yn ofalus nes ei fod yn feddal. Ychwanegwch y garlleg a'i goginio am funud arall. Rhowch y cennin, y tatws, y ddeilen llawryf, y teim a'r cig moch wedi'i goginio yn y sosban. Arllwyswch y gwin i mewn a'i fudferwi am ddwy funud. Ychwanegwch y stoc a'i godi i'r berw. Rhowch gaead drosto a'i fudferwi'n dawel am 12–15 munud, neu nes bod y tatws a'r cennin yn dyner.

Cyn ei fwyta, ychwanegwch y llaeth a'r hufen, halen a phupur, a'i gynhesu drwyddo. Codwch i ddysglau a thaenellu'r cennin syfi a'r halen seleri drosto.

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

# IAN JONES YN DECHRAU YN EI SWYDD FEL PRIF WEITHREDWR

Mae Ian Jones wedi dechrau yn ei swydd fel Prif Weithredwr newydd S4C.

Fe ddechreuodd yn ei rôl newydd ychydig dros fis yn ôl ac mae eisoes wedi dechrau cyflwyno ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'n ymuno â'r Sianel yn ei phencadlys yn Llanisien, Caerdydd, ar adeg o newid mawr i S4C.

O flwyddyn nesaf ymlaen, fe fydd S4C yn cael ei hariannu'n bennaf gan arian y drwydded. Mae'r cyllid yn llai nag yr oedd yn arfer bod, ond mae'r Sianel wedi cael sicrwydd ariannol gan Ymddiriedolaeth y BBC tan y flwyddyn 2016-2017.

Mae Ian Jones, sydd wedi gweithio i S4C ar ddau gyfnod blaenorol, yn hyderus iawn am y dyfodol.

"Cydweithio, Cyfathrebu, Uchelgais, Hyder a Beiddgarwch fydd geiriau'r misoedd a'r blynyddoedd nesaf," meddai Ian, sy'n wreiddiol o Dreforys, Abertawe.

"Gan fod y sicrwydd ariannol gennym bellach, fe allwn gynllunio ymlaen. Mae gennym dîm dawnus yma yn S4C a sector cynhyrchu annibynnol deinamig a chreadigol. Trwy gydweithio'n agos gyda'r BBC, rwy'n sicr y gallwn ddarparu gwasanaeth rhaglenni o'r safon uchaf i wylwyr y Sianel.

"Rydym newydd lansio ein hamserlen newydd ac mae cynlluniau cyffrous eraill ar y gweill i ddatblygu'n gwasanaethau yn yr oes ddigidol."

Mae Ian Jones yn un o reolwyr mwyaf profiadol y byd teledu ym Mhrydain a'r Unol Daleithiau ac mae ganddo brofiad eang ar draws darlledu, cynhyrchu, cyd-gynyrchiadau a theledu rhyngwladol.



Ei swydd ddiwethaf oedd fel Rheolwr Gyfarwyddwr, Dosbarthu Cynnwys a Datblygiad Masnachol, cwmni A+E Television Networks, yn gweithio o Efrog Newydd.

Roedd Ian, yn rhan o'r tîm lansiodd S4C ym 1982 ac ar ôl gweithio yn adran adloniant rhwydwaith ITV ac fel cynhyrchydd annibynnol ail-ymunodd ag S4C fel Cyfarwyddwr Busnes, S4C Rhyngwladol a Chyd-gynyrchiadau o 1992 i 1997.

Dywed Ian ei fod yn falch iawn o fod nôl yng Nghymru a Chaerdydd ar ôl blynyddoedd o weithio'r ochr draw i Fôr yr Iwerydd.

"Mae'r ddinas a'r wlad wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd. Mae'n gyfnod cyffrous i fyw ac i weithio yng Nghaerdydd ac rwy'n edrych ymlaen at weld y diwydiant cyfryngau yn datblygu mewn ffyrdd cynhyrfus yn y brifddinas a ledled y wlad."

**Owain Pennar**
*Uwch Swyddog y Wasg S4C*

# SGOWTIAID ARLOESOL YN CAMU I'R COED

Mae dwy fintai o Sgowtiaid yn gweithio i ennill eu Bathodyn Coedwigwr gan fentro i goetiroedd gerllaw i wneud gwrthrychau defnyddiol o frigau sydd i'w cael ar hyd y llwybrau ac ochrau ffyrdd.

Gofynnodd y ddwy fintai o Sgowtiaid, 2il Rhiwbeina a 1af Abercarn, i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am ganiatâd i gasglu brigau i wneud 'polion' - yr enw a roir i frigau moel - o goetiroedd Abercarn a Gwyddon ger y pentrefi Abercarn a Chwmcarn yng nghymoedd De Cymru.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o offer llaw megis siswrn tocio, llif bwa, tocwyr a bwyeill bach bychan, bydd y Sgowtiaid yn rhwymo'r brigau gyda'i gilydd â rhaff i wneud dodrefn ac offer gwersylla eraill.

Mae'r gelfyddyd o ddefnyddio rhaffau a brigau coed gyda'i gilydd i adeiladu unrhyw beth o stondinau golchi, byrddau a chadeiriau i strwythurau mwy megis pontydd a thyrau yn cael ei galw'n 'arloesi'.




*Lynn, Arweinydd y Sgowtiaid, yn goruchwylio'r Sgowtiaid yn gwneud trestl pren a allai cael ei ddefnyddio fel sail i bethau megis pontydd a thyrau.*

Daw'r enw o arfer peirianwyr militaraidd yn y 18fed a 19eg ganrif o fynd o flaen y fyddin i 'arloesi' llwybr a allai olygu adeiladu pontydd a thyrau o raffau a choed.

Meddai'r Rhodiwr Cymunedol Emma Louise Felkin, "Roeddwn i'n falch iawn o roi caniatâd i'r Sgowtiaid gasglu brigau o'r llwybrau ac ochrau'r ffyrdd.

Bydd hynny o gymorth i gadw'r llwybrau trwy'r coetiroedd yn glir a hefyd, gobeithio, yn eu helpu nhw i werthfawrogi'r coetiroedd."

# *Beth yw'r organ glywa' i'n seinio...*



Ie, sŵn soniarus organ bib drydan newydd 3 maniwal Makin yn Coryton Crescent yn ystafell gerddoriaeth newydd yr athrawon a'r cerddorion Howard a Ruth Watt. Roedd eu plant Anthony ac Emma yno hefyd i groesawu ymwelwyr cerddorol ac eraill yn ystod penwythnos olaf mis Tachwedd llynedd. Darparwyd lluniaeth ysgafn a chasglwyd rhai cannoedd o bunnoedd i gefnogi apêl organ drudfawr Eglwys Gadeiriol Llandaf.

# ADAR GLEISION



Pedwar o gefnogwyr brwd yr Adar Gleision ar eu ffordd i Wembley dydd Sul, 26 Chwefror - Cian Macarthy (ail o'r chwith) a Will Parsons (ar y dde) o ysgol Pen y Garth, Penarth, gyda dau ffrind o Gaerfyrddin.

Llongyfarchiadau calonnog i dîm pêl-droed Dinas Caerdydd wedi'r ymdrech arwrol yng Nhgwpan Carling yn erbyn Cochion Lerpwl. Dyna beth oedd bron tair awr o gyffro! Gobeithio aiff yr Adar Gleision ymlaen o nerth i nerth yn ystod gweddill y tymor a llwyddo i sicrhau lle gyda'r Elyrch yn yr Uwch Gyngrair pan ddaw'r tymor newydd!



*Criw o ddisgyblion Plasmawr a Glantaf yn barod i rafftio dwr gwyn lawr yn y Bae yn ystod hanner tymor*


## *Angen trwsio neu newid eich cyfrifiadur?*

* Systemau newydd i'r cartref neu fusnes
* Adnewyddu a thrwsio
* 20 mlynedd o brofiad
* Gwasanaeth cartref ar gael

**106 Heol Y Crwys, Caerdydd CF24 4NQ**
**029 2023 1445 wyn@dinascomputers.co.uk**

DINAS MICROLINK TECHNOLOGY CENTRE


# BWRLWM

menter caerdydd

Mae'r sesiynau chwarae Bwrlwm yn mynd o nerth i nerth, a bydd 4 Bwrlwm ar agor yn ystod gwyliau'r Pasg – yn y Sblot (Ysgol Glan Morfa), Llanedyrn (Ysgol y Berllan Deg), Caerau (Ysgol Nant Caerau) a'r Tyllgoed (Ysgol Coed y Gof). Yn ystod yr wythnos, bydd cyfleoedd i goginio, cymryd rhan mewn sesiynau Chwaraeon gyda'r Urdd, sesiynau celf a chrefft ac ail-gylchu a gweithdy cerdd. Bydd cyfle hefyd i fynd ar daith i weld ffilm yn y sinema. Does dim angen cofrestru o flaen llaw ar gyfer y sesiynau, sy'n rhad ac am ddim. Am fwy o fanylion, cysyllwch â angharad@mentercaerdydd.org neu ewch i wefan y Fenter.



*Un o blant Bwrlwm Ysgol y Berllan Deg yn rhoi bwyd i'r parots yn Sŵ Bryste*